OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1324 (Cy.137)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008 ("Rheoliadau 2008").

Mae Rheoliad 5 yn diwygio rheoliad 18 o Reoliadau 2008 er mwyn cynyddu'r grantiau ar gyfer ffioedd sy'n daladwy i fyfyrwyr sy'n mynychu Canolfan Bologna o 25,580 ewro i 27,115 ewro.

Mae Rheoliad 6 yn diwygio paragraffau 8(1)(b) ac 8(1)(c) o Atodlen 2 o Reoliadau 2008 er mwyn galluogi myfyrwyr sydd wedi ymsefydlu yn y DU ac sy'n arfer hawl i breswylio yn yr UE ac yna'n dychwelyd i'r DU i astudio i fod yn gymwys i gael y cymorth ariannol i fyfyrwyr yn llawn o dan y Rheoliadau hyn.

Mae Rheoliad 7 yn diwygio paragraff 4 o Atodlen 3 o Reoliadau 2008 o ran cyfrifo incwm gweddilliol rhiant myfyriwr.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 1324 (W.137)

# EDUCATION, WALES

## The Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) (Amendment) Regulations 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) Regulations 2008 ("the 2008 Regulations").

Regulation 5 amends regulation 18 of the 2008 Regulations so as to increase the grant for fees payable to students attending the Bologna Centre from 25,580 euro to 27,115 euro.

Regulation 6 amends paragraphs 8(1)(b) and 8(1)(c) of Schedule 2 of the 2008 Regulations to enable students who are settled in the UK and exercise a right of residence in the EU and subsequently return to the UK to study to be eligible for full financial support under the Regulations.

Regulation 7 amends paragraph 4 of Schedule 3 of the 2008 Regulations in relation to the calculation of a student's parent's residual income.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1324 (Cy.137)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *16 Mai 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *20 Mai 2008* |
| *Yn dod i rym* | *13 Mehefin 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147 a Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adran 42. Diwygiwyd adran 42 ac adran 43 gan Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 12.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149)(C.79)) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159)(C.56)). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 1324 (W.137)

# EDUCATION, WALES

## The Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) (Amendment) Regulations 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *16 May 2008* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *20 May 2008* |
| *Coming into force* | *13 June 2008* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 22, 42(6) and 43(1) of the Teaching and Higher Education Act 1998(**1**), and now exercisable by them(**2**) make the following Regulations:

(**1**) 1998 c. 30; section 22 was amended by the Learning and Skills Act 2000 (c. 21), section 146 and Schedule 11, the Income Tax (Earnings and Pensions) Act 2003 (c. 1), Schedule 6, the Finance Act 2003 (c. 14), section 147 and the Higher Education Act 2004 (c. 8), section 42. Section 42 and section 43 were amended by the Education Act 2002 (c. 32), Schedule 12.

(**2**) The functions of the Secretary of State under the Teaching and Higher Education Act 1998 were transferred to the National Assembly for Wales by section 44 of the Higher Education Act 2004 and the Higher Education Act 2004 (Commencement No. 2 and Transitional Provision) (Wales) Order 2005 (S.I. 2005/1833 (W.149)(C.79)) as amended by the Higher Education Act 2004 (Commencement No. 2 and Transitional Provision) (Wales) (Amendment) Order 2006 (S.I. 2006/1660 (W.159)(C.56)). The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraphs 30(1) and 30(2)(a) of Schedule 11 of the Government of Wales Act 2006 (c.32).

**RHAN 1**

CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 13 Mehefin 2008.

**2**. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**3**. Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2008" ("*the 2008 Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008(**1**).

**Diwygio Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008**

**4**. Diwygir Rheoliadau 2008 fel a ganlyn.

**5**. Yn rheoliad 18(3), yn lle'r ffigur "25,580", rhodder y ffigur "27,115".

**6**. Yn lle paragraffau 8(1)(b) ac 8(1)(c) o Atodlen 2 rhodder—

"(b) a oedd yn preswylio fel arfer yng Nghymru ac wedi ymsefydlu yn y Deyrnas Unedig yn union cyn gadael y Deyrnas Unedig i arfer hawl i breswylio;

(c) sydd yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y dyddiad perthnasol;".

**7**. Ym mharagraff 4(2)(a) o Atodlen 3 hepgorer y geiriau "a delir gan y myfyriwr" ac "y myfyriwr".

**PART 1**

GENERAL

**Title, commencement and application**

**1**. The title of these Regulations is the Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) (Amendment) Regulations 2008 and they come into force on 13 June 2008.

**2**. These Regulations apply in relation to Wales.

**Interpretation**

**3**. In these Regulations "the 2008 Regulations" ("*Rheoliadau 2008*") means the Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) Regulations 2008(**1**).

**Amendment of the Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) Regulations 2008**

**4**. The 2008 Regulations are amended as follows.

**5**. In regulation 18(3), for the figure "25,580" substitute the figure "27,115".

**6**. For paragraphs 8(1)(b) and 8(1)(c) of Schedule 2 substitute—

"(b) was ordinarily resident in Wales and settled in the United Kingdom immediately before leaving the United Kingdom to exercise a right of residence;

(c) is ordinarily resident in the United Kingdom on the relevant date;".

**7**. In paragraph 4(2)(a) of Schedule 3 omit the words "paid by the student" and "student's".

*Jane Hutt*

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

16 Mai 2008

Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, one of the Welsh Ministers

16 May 2008

(**1**) O.S. 2008/18 (Cy. 7).

(**1**) S.I. 2008/18 (W. 7).

WELSH

○

**£3.00**

W322/06/08 ON